# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gyfarfod 4, Neuadd y Dref, Rhuthun ar ddydd Iau, 13 Chwefror 2020 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Hugh Irving, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne (Is-gadeirydd)

Roedd y Cynghorydd Brian Jones - Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a’r Cynghorydd Tony Thomas - Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen – Polisïau'r Cyngor a'r Asiantaeth Cefnffyrdd ar gyfer Cynnal a Chadw Ymylon Ffyrdd a Pherthi a Gwasgaru Plaladdwyr

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Pennaeth Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (AL), Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig (GR) a Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (ME), Cydlynydd Craffu (RhE), Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Peter Scott.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2019.

O ran cywirdeb –

- Amlygodd y Cynghorydd Christine Marston sut y gwnaeth hi ymddiheuro am y cyfarfod ond na chafodd ei nodi, a gofynnodd bod ei hymddiheuriadau’n cael eu nodi.

Materion yn Codi -

- Gwnaethpwyd y pwyllgor yn ymwybodol bod Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ymddiswyddo a bod Prif Weithredwr dros dro wedi'i benodi ers y cyfarfod blaenorol.
- Teimlai'r aelodau nad oedd y trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod diwethaf mewn perthynas ag Ysbyty Dinbych, Prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Dinbych a Phrosiectau Cyfalaf y Bwrdd Iechyd yn Sir Ddinbych yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r pwyllgor. Roedd hyn oherwydd bod y materion wedi'u trafod mewn nifer o bwyllgorau eraill.
- Tynnwyd sylw at eitem 8 ar y rhaglen a chwestiynau a gafodd aelod gan Swyddog Archwilio Cymru. Teimlai'r aelod nad oedd ganddo yr wybodaeth ddigonol ar gyfer y cwestiynau. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Ymatebodd cymunedau i'r pwynt trwy dynnu sylw, fel arweinydd y prosiect, na ellid ateb rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd felly nad oeddent yn adlewyrchu'n wael ar yr aelod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2019 fel cofnod cywir.*

## 5 POLISÏAU'R CYNGOR A'R ASIANTAETH CEFNFFYRDD AR GYFER CYNNAL A CHADW YMYLON FFYRDD A PHERTHI A GWASGARU PLALADDWYR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Priffyrdd, Effaith Amgylcheddol, Gwastraff a Theithio Cynaliadwy yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ochr yn ochr â'r Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, a'r Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol. Hefyd roedd David Evans, Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth a Mark Watson-Jones, Cydlynydd Amgylcheddol o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau ar gais y Pwyllgor ar ôl iddo ystyried Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth drafft y Cyngor yn ystod haf 2019. Yn ogystal, gofynnwyd am wybodaeth am ddefnydd y Cyngor o blaladdwyr. Roedd yr aelodau'n ceisio sicrwydd bod polisïau cynnal a chadw ymylon/gwrychoedd priffyrdd Sir Ddinbych yn cael eu gweithredu'n gyson ledled y sir. Wrth i dair cefnffordd, a oedd yn gyfrifoldeb Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru groesi'r sir, roedd cynrychiolwyr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru hefyd wedi'u gwahodd i'r cyfarfod i drafod gyda'r Pwyllgor ei bolisïau mewn perthynas â chynnal a chadw ymylon/gwrychoedd a'r defnydd o blaladdwyr.

Yn ystod y drafodaeth, dywedwyd wrth y Pwyllgor:

- er y bu cryn sylw a si yn y cyfryngau ynghylch diogelwch Glyffosad a'r defnydd ohono, nid oes unrhyw chwynladdwr systemig effeithiol amgen wedi ei ddarganfod na'i ddatblygu. Roedd nifer o awdurdodau yn archwilio dulliau amgen ac roedd gwyddonwyr yn ymchwilio i gynhyrchion amgen posibl, ond hyd yma Glyffosad oedd y cynnyrch mwyaf effeithiol o'i fath ar y farchnad. Pe bai'r Cyngor ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn defnyddio dulliau neu gynnyrch amgen, bydden nhw naill ai'n lafurddwys neu'n ddrud i'w prynu.
- Caiff Glyffosad ei drwyddedu a'i ddefnyddio gan holl lywodraethau'r DU. Ar hyn o bryd, dyna'r unig ateb ymarferol ar gyfer delio gyda chwyn ar draws

rhwydwaith y priffyrdd. Roedd y math o chwynladdwr systematig a ddefnyddid gan y Cyngor ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru o safon diwydiannol a barnwyd ei fod yn gwbl ddiogel pe bai'n cael ei gymhwyso gan weithwyr hyfforddedig a chontractwyr a oedd yn cydymffurfio ag arferion gwaith diogel y cawsant hyfforddiant arnynt. Cafodd y plaladdwr ei chwistrellu ddwywaith y flwyddyn ar ffyrdd y sir.

- Cafodd dulliau eraill, megis triniaeth ewyn poeth, eu defnyddio mewn meysydd penodol o'r sir, h.y. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Fodd bynnag, roedd y defnydd ohono yn gyfyngedig ac felly ni fyddai'n ymarferol i'w ddefnyddio ar draws rhwydwaith y briffordd;
- Weithiau byddai trigolion yn dychryn wrth weld gweithwyr yn rhoi plaladdwyr mewn mannau cyhoeddus, yn gwisgo dillad amddiffynnol a masgiau wyneb pan oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. Fodd bynnag, honnwyd bod y plaladdwyr yn ddiogel i'r cyhoedd. Y rhesymau pam roedd gweithwyr yn gwisgo'r dillad amddiffynnol oedd i gydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch yn ymwneud â chysylltiad hirfaith i gemegau, gan eu bod yn delio â nhw o ddydd i ddydd. Nid oedd cysylltiad byrdymor, fel yr oedd y cyhoedd yn ei brofi, yn peri risg i iechyd
- Roedd Cyngor Sir Ddinbych ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhan o Rwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru. Roedd hyn yn sicrhau bod pob asiantaeth a oedd yn gweithredu yn yr ardal yn defnyddio arferion bioamrywiaeth ac iechyd a diogelwch tebyg wrth dorri ymylon glaswellt a chwistrellu plaladdwyr. Yn ogystal, gosodwyd pob contract cynnal a chadw priffyrdd yn dilyn proses dendro ffurfiol. Lluniodd yr awdurdodau priffyrdd fanylebau'r contract a oedd yn nodi materion fel amlder toriadau, chwistrellu cemegol a'r mathau o gemegau i'w defnyddio, pob un ohonynt yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a rheoliadau cyfredol. Byddai'r holl gontractau yn cael eu monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda manyleb y contract. Ni fyddai contractau bob amser yn cael eu gosod ar sail pris yn unig, roedd ansawdd y gwaith hefyd yn ffactor. Roedd yn bwysig felly i aelodau etholedig hysbysu'r asiantaethau am waith o ansawdd da yn ogystal â gwaith o ansawdd gwael;
- Roedd y Cyngor ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cyfathrebu gyda gweithredwyr a chontractwyr penodedig mewn perthynas â lleoliad gwarchodfeydd natur ar ochr y ffordd a sut i'w hamddiffyn yn ystod ymarferion torri ymylon a chwistrellu chwyn;
- Roedd mwyafrif y gwrychoedd ledled y sir yn rhai perchnogaeth breifat, felly roedd y tirfeddianwyr yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw

Pwysleisiodd aelodau gwledig yr angen i drefnu toriadau ymylon yn effeithiol ar ffyrdd gwledig i gyd-fynd â'r amrywiannau yn y tymor tyfu o flwyddyn i flwyddyn, a hefyd i sicrhau bod yr ymylon yn cael eu torri cyn i rywfaint o'r llystyfiant galedu, h.y. gorthyfail. Roedden nhw o'r farn felly bod angen elfen o hyblygrwydd ar gyfer polisïau torri ymylon. Ar y sail hwn, penderfynodd y Pwyllgor ar y canlynol:

***<u>Penderfynwyd:</u> - ar ôl archwilio polisïau cyfredol y ddau sefydliad, ac yn amodol ar yr arsylwadau uchod -***

***(i) derbyn yr adroddiad ac argymell y dylid cadw at amseriad toriadau ymylon glaswellt ar draws y sir, gyda lefel o hyblygrwydd yn rhan***

***ohono er mwyn darparu ar gyfer yr amrywiannau mewn tymhorau tyfu o flwyddyn i flwyddyn; a***
***(ii) cyflwyno Polisi Cynnal a Chadw Ymylon Glaswellt priffyrdd y Cyngor i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Mai 2020 ar gyfer ei adolygu***

## 6 TRWYDDEDU YCHWANEGOL I DAI AMLFEDDIANNAETH

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a'r Gwasanaethau Cefn Gwlad yr adroddiad, Trwydded Ychwanegol i Dai Amlfeddiannaeth, ochr yn ochr â swyddogion, Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig a Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd).

Roedd Swyddogion wedi gofyn bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried cynnig i adnewyddu Cynllun Trwydded Ychwanegol i Dai Amlfeddiannaeth y Cyngor, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu yn Y Rhyl, yn ogystal ag ymestyn y cynllun i gynnwys eiddo perthnasol ym Mhrestatyn, Dinbych a Llangollen.  Cynghorwyd y Pwyllgor gan yr Aelod Arweiniol fod Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn falch o effeithiolrwydd y cynllun cyfredol sy'n gweithredu mewn ardaloedd o fewn y Rhyl ac yn awyddus i'r cynllun gael ei adnewyddu. Yng ngoleuni llwyddiant y cynllun presennol, roedd y Cyngor yn awyddus i'w ymestyn i dair tref arall yn y sir, Dinbych, Llangollen a Phrestatyn er mwyn sicrhau y byddai tai amlfeddiannaeth nad ydynt yn dod o dan y cynllun gorfodol bellach yn cael eu rheoleiddio'n fwy effeithiol. Pwrpas y cynllun oedd sicrhau bod tai amlfeddiannaeth yn cael eu cynnal i safon resymol, a'u bod yn darparu llety addas a diogel i'r bobl a oedd yn byw yno. Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu, y cam nesaf fyddai mynd â'r Cynllun i bob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol a chychwyn ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos ar y Cynllun cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu.

Amlinellodd swyddogion y buddion o gael Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, gan ddweud bod y Cyngor wedi archwilio eiddo a gwmpesir gan y cynlluniau gorfodol ac ychwanegol i sicrhau cydymffurfiad. Roedd hefyd yn caniatáu i'r Cyngor weithio gyda landlordiaid preifat i sicrhau gwelliannau, a oedd yn ei dro yn helpu i leihau nifer y gwagleoedd yn y sir, cynyddu nifer yr unedau tai sydd ar gael yn Sir Ddinbych, yn ogystal â gwella perfformiad y Sir yn erbyn nifer yr eiddo gorlawn a gofnodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor, dyma a wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r Swyddogion:

- cynghori bod ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn Tai Amlfeddiannaeth yn y sector preifat yn gofyn am gymryd camau monitro a gorfodi mwy llym lle bo angen;
- cadarnhau bod y Tîm Gorfodaeth Tai yn cynnwys chwe aelod o staff cyfwerth â llawn amser ac yn hyderus, yn seiliedig ar ddata hygyrch cyfredol, y byddai hyn yn ddigon i reoli'r cynllun trwyddedu ychwanegol estynedig arfaethedig.  Elwodd y Tîm hefyd ar incwm a dderbyniwyd gan ffioedd a roddodd ychydig o hyblygrwydd iddynt gyflogi staff ychwanegol os oedd angen;
- dweud bod erlyn landlordiaid nad oeddent yn cydymffurfio yn broses hir a chymhleth, a dyna'r rheswm am y nifer isel o erlyniadau a gynhaliwyd yn

ystod y deng mlynedd y bu'r Cynllun yn gweithredu mewn rhannau o'r Rhyl. Roedd deialog, a chamau gorfodi neu waharddiad os oedd angen, yn offer rheoli llawer mwy effeithiol oherwydd er mwyn sicrhau eu hincwm o'u heiddo byddai landlordiaid yn gweithio gyda'r Cyngor yn y pen draw, gyda'r bwriad o gydymffurfio â'r gofynion;

- esbonio'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Cynllunio, Adeiladu a Thrwyddedu ond yn pwysleisio bod y tri gwasanaeth yn cydweithio'n agos ar faterion sy'n peri pryder;
- dweud bod y Gwasanaeth yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth adweithiol gan denantiaid, y cyhoedd ac aelodau etholedig ynghylch digwyddiadau posibl o ddiffyg cydymffurfio. Gweithiodd yn agos hefyd gyda Gwasanaeth Digartrefedd y Cyngor ac asiantaethau allanol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau tai a digartrefedd;
- cadarnhau bod y Gwasanaeth wedi defnyddio data Rhentu Doeth Cymru i gymharu data cofrestru a thrwyddedu â'r hyn a gedwir gan y Cyngor;
- dweud yr eir i'r afael â phob cwyn a geid mewn perthynas â thramgwyddau gorfodi tai o fewn pum niwrnod; a
- dweud nad oedd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan eu bod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r un rheoliadau tai â stoc dai'r Cyngor, roedd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn berthnasol i landlordiaid y sector preifat. Fodd bynnag, pe bai gan aelodau bryderon am unrhyw eiddo neu denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gallent eu hanfon ymlaen at Dîm Gorfodi Tai y Cyngor a byddent yn eu codi gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan eu bod yn cwrdd â nhw yn rheolaidd

Gan ymateb i bryderon aelodau ynghylch a allai cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol i drefi penodol yn y sir ac nid i bob tref a phentref gael effaith niweidiol drwy achosi i landlordiaid diegwyddor weithredu mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y cynllun, dywedodd swyddogion y byddent yn monitro'r sefyllfa'n agos. Gellid gwneud hyn drwy weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Amgylcheddol drwy fonitro data gwastraff ac ailgylchu ar gyfer ardal rhag ofn eu bod yn gwagio cynwysyddion gwastraff lluosog ar gyfer eiddo sengl. Mynegodd yr aelodau eu pryderon hefyd am y cynnydd ymddangosiadol yn nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer trosi anheddau sengl yn anheddau aml-ddeiliadaeth a ystyriwyd gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn ystod y misoedd diwethaf, boed hynny am eu troi'n Dai Amlfeddiannaeth neu'n fflatiau annibynnol.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael dolen i wefan a data 'Rhentu Doeth Cymru', a chael y gofrestr o eiddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Sir Ddinbych.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) a darparu 'Adroddiad Gwybodaeth' ar nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniodd y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn ceisio caniatâd i drosi anheddau sengl yn Dai Amlfeddiannaeth a/neu yn fflatiau hunangynhwysol, gan gynnwys nifer y ceisiadau a roddwyd ac a wrthodwyd gan swyddogion a gan y Pwyllgor Cynllunio;***

***(ii) ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad a rhoi ystyriaeth benodol i'r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol arfaethedig, y math o Dai Amlfeddiannaeth sydd i'w cynnwys yn y cynllun ychwanegol, y cyfiawnhad a'r dystiolaeth dros ail-ddynodi Cynllun Trwyddedu Ychwanegol, yr Amodau sydd i'w gosod fel rhan o'r Cynllun, a'r ffioedd sydd i'w cymhwyso i'r Cynllun, i gefnogi'r ymgynghoriad sydd ar ddod ar ymestyn y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol;***
***(iii) fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 7); ac***
***(iv) ar ôl i'r broses ymgynghori gyhoeddus ddod i ben, dylid cyflwyno drafft terfynol Trwydded Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth i'r Pwyllgor i graffu ymhellach arno cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo***

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

2 Ebrill - eglurwyd ei bod yn debygol y bydd Cam 2 Cynnig Twf Gogledd Cymru – Cytundeb Llywodraethu - ar gael ar gyfer y cyfarfod. Eglurwyd mai ar gyfer trafod y gwaith llywodraethu oedd hyn ac nid sut roedd y cyllid yn cael ei ddyrannu.

21 Mai - Polisi Cynnal a Chadw Ymylon Glaswellt Priffyrdd y Cyngor wedi'i gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:53 p.m.**